

TGAU



TGAU CBAC CYMRAEG IAITH

ACHREDWYD GAN LYWODRAETH CYMRU

MANYLEB

Addysgu o 2015
l'w ddyfarnu o 2017

Fersiwn 3 Ionawr 2019

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Lywodraeth Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.



CRYNODEB O NEWIDIADAU

Fersiwn	Disgrifiad	Rhif y dudalen
2	Bwriad y newidiadau yw dileu cyfeiriadau blaenorol sy'n nodi bod cyfres arholiadau Tachwedd ar gyfer ymgeiswyr ailsefyll yn unig (bydd y gyfres hon yn agored i bawb o fis Tachwedd 2018).	3, 5, 13 a 21
3	Newidiwyd yr adran 'Cofrestru' i egluro rheolau ailsefyll a throsglwyddo marciau'r Asesu Di-arholiad.	21

TGAU CYMRAEG IAITH CBAC

I'W ADDYSGU O 2015

I'W DDYFARNU O 2017

Mae'r fanyleb hon yn bodloni'r Egwyddorion Cymhwyster TGAU sy'n pennu gofynion yr holl fanylebau TGAU newydd neu ddiwygiedig a ddatblygwyd i'w haddysgu yng Nghymru o fis Medi 2015.

	Tudalen
Crynodeb o'r asesiad	2
1. Rhagarweiniad	4
1.1 Nodau ac amcanion	5
1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant	7
1.3 Cydraddoldeb ac asesu teg	8
1.4 Bagloriaeth Cymru	8
2. Cynnwys y pwnc	9
2.1 Uned 1	9
2.2 Uned 2	10
2.3 Uned 3	11
3. Asesu	12
3.1 Amcanion asesu a phwysoli	12
3.2 Trefniadau ar gyfer asesiad diartholiad	13
4. Gwybodaeth dechnegol	21
4.1 Cofrestru	21
4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl	21

TGAU CYMRAEG IAITH

CRYNODEB O'R ASESIAD

Uned 1: Asesiad Diarholiad
Llafar
30%

Tasg 1 (15%) – Cyflwyniad Unigol Ar Sail Ymchwil (40 marc)
Cyflwyniad unigol ar sail ymchwil a all gynnwys ymateb i gwestiynau ac adborth wedi'u seilio ar themâu gosod gan CBAC.

Tasg 2 (15%) – Ymateb a Rhyngweithio (40 marc)
Tasg grŵp yn seiliedig ar sbardunau ysgrifenedig a/neu weledol a ddarperir gan CBAC i symblu trafodaeth.

Ar gyfer y ddwy dasg dyfernir hanner y marciau am gynnwys a threfn a'r hanner arall am gywair priodol, cywirdeb gramadegol ac ystod o strwythurau brawddegol.

Uned 2: Asesiad Allanol
Darllen ac Ysgrifennu: Disgrifio, Naratif ac Esbonio
35% (2 awr)

Adran A (15%) – Darllen (30 marc)
Deall o leiaf un testun disgrifio, un naratif ac un esbonio yn cynnwys testunau di-dor a phytig. Asesir y darllen drwy ystod o gwestiynau strwythuredig.

Bydd yr adran hon hefyd yn cynnwys tasg golygu testun a fydd yn canolbwyntio ar ddeall testun byr ar lefel gair, brawddeg a thestun (2.5% o'r cymhwyster cyfan).

Adran B (20%) – Ysgrifennu (40 marc)
Un dasg ysgrifennu o ddewis o ddau. Gall fod naill ai'n dasg ddisgrifio, tasg naratif neu dasg esbonio.

Bydd yr adran hon yn cynnwys hefyd un dasg prawf ddarllen yn canolbwyntio ar ysgrifennu'n gywir (2.5% o'r cymhwyster cyfan).

Dyfernir hanner y marciau yn yr adran hon am gyfathrebu a threfn (ystyr, pwrpasau, darllenwyr a strwythur) a'r hanner arall am ysgrifennu'n gywir (iaith, gramadeg, atalnodi a sillafu).

Uned 3: Asesiad Allanol
Darllen ac Ysgrifennu: Trafod, Perswâd a Chyfarwyddiadol*
35% (2 awr)

Adran A (15%) – Darllen (30 marc)
Deall o leiaf un testun trafod, un cyfarwyddiadol ac un perswâd, yn cynnwys testunau di-dor a phytig. Asesir y darllen trwy gyfres o gwestiynau strwythuredig.

Adran B (20%) – Ysgrifennu (40 marc)
Un dasg ysgrifenedig orfodol – trafod ac un dasg ysgrifenedig orfodol - perswâd.

Dyfernir hanner y marciau yn yr adran hon am gyfathrebu a threfn (ystyr, pwrpasau, darllenwyr a strwythur) a'r hanner arall am ysgrifennu'n gywir (iaith, gramadeg, atalnodi a sillafu).

* Bydd 'Testun Cyfarwyddiadol' yn ymddangos fel testun darllen yn unig. Ni ddisgwylir tasg ysgrifennu yn y maes hwn gan nad yw'n ymddangos yn yr Egwyddorion Pwnc ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith.

CYFLEOEDD ASESU

	Mehfin 2017 a phob blwyddyn wedi hynny	Tachwedd 2017 a phob blwyddyn wedi hynny
Uned 1	✓	✓
Uned 2	✓	✓
Uned 3	✓	✓
Dyfarniad Pwnc	✓	✓

Rhif Cymhwyster ar restr [The Register](#): 601/4944/9

Rhif Cymeradwyo Cymwysterau Cymru ar restr [QiW](#): C00/0720/8

Manyleb linol yw hon: rhaid gwneud yr asesiadau i gyd ar ddiwedd y cwrs.

CYMRAEG IAITH

1 RHAGARWEINIAD

Cyflwynir cymhwyster TGAU Cymraeg Iaith newydd i'w ddefnyddio yng Nghymru mewn ymateb i argymhelliad 18 o adroddiad terfynol yr *Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2012). Mae'r fanyleb hon yn cwrdd â'r egwyddorion pwnc ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith.

Yn yr adroddiad hwn roedd argymhelliad 18 yn datgan:

'Dylai'r cymwysterau newydd roi mwy o sicrwydd ynghylch llythrennedd:

- trwy adeiladu'n benodol ar y lefelau llythrennedd y disgwylir byddai dysgwyr wedi'u datblygu erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 3 mewn ymateb i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd newydd
- trwy gael ei asesu'n bennaf drwy asesiadau sy'n cael eu marcio'n allanol ac sy'n gyson ar draws Cymru a rhwng y ddwy iaith [Cymraeg a Saesneg].'

Wrth ddatblygu'r fanyleb hon, mae CBAC wedi cadw'r nodweddion canlynol mewn cof:

- meithrin yn yr ymgeiswyr agweddau cadarnhaol at yr iaith Gymraeg gan feithrin gwerthfawrogiad o'r Gymraeg a hyrwyddo defnydd effeithiol ohoni
- datblygu diddordeb a brwdfrydedd ymgeiswyr yn y Gymraeg a'u harfogi i gyfrannu at gymdeithas ddwyieithog
- cyfleoedd ar gyfer dulliau addysgu hyblyg
- cwestiynau a thasgau wedi eu cynllunio i alluogi ymgeiswyr i arddangos eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'r hyn maent yn gallu ei wneud
- geirio cwestiynau yn glir ac uniongyrchol
- hygyrchedd y deunyddiau
- cyfleoedd ar gyfer astudiaeth eang ynghyd â gwybodaeth pwnc benodol
- defnyddio deunydd nas astudiwyd o'r blaen i'w ddadansoddi mewn asesiad allanol
- canolbwyntio'r asesu ar sgiliau iaith penodol
- cyfleoedd i gynhyrchu ysgrifennu estynedig
- deunyddiau ac arholiadau o safon

Mae i'r cymhwyster hwn ddwy uned asesiad allanol sydd wedi'u pwysoli'n gyfartal ac un uned asesiad mewnol. Mae'r ddwy uned asesiad allanol yn profi sgiliau Darllen ac Ysgrifennu tra bo'r uned asesiad mewnol yn profi sgiliau Llafar.

Wrth gynllunio'r fanyleb hon, mae ystyriaeth ofalus i hyd amser arholiadau a'r nifer o gwestiynau wedi sicrhau cydbwysedd rhwng asesiad cadarn ac ymarferoldeb. Bydd mathau amrywiol o gwestiynau a chyfarwyddiadau clir yn anelu at wneud yr asesiad di-haen hwn yn hygyrch i ddysgwyr o bob gallu.

Nod allweddol y fanyleb hon yw annog ymgeiswyr i gynhyrchu testunau o safon wrth ymateb yn ysgrifenedig. Er mwyn cynorthwyo dysgwyr i gyflawni hyn, bydd deunyddiau asesu CBAC yn sicrhau bod gwaith ysgrifenedig o safon yn cael ei astudio fel rhan o'r asesiad Darllen a all fod yn fuddiol fel patrwm i ddysgwyr wrth iddynt ysgrifennu.

Nodir yn y gofynion rheoleiddio a osodir gan Lywodraeth Cymru y bydd manyleb TGAU Cymraeg iaith yn:

- ddi-haen
- llinol gydag asesiadau ar gael yng nghyfres yr haf a chyfle ychwanegol ym mis Tachwedd bob blwyddyn

Mae'r fanyleb hon yn cwrdd â'r gofynion hyn.

Dylid darllen y fanyleb ar y cyd â'r dogfennau CGC ar drefniadau mynediad ac ystyriaethau arbennig ac ar gynnal arholiadau. Yn ychwanegol, mae Adran 4 yn nogfen CGC o'r enw *Canllawiau cynnal asesiadau dan reolaeth (cymwysterau TGAU)* yn darparu cyngor a chanllawiau ar wneud tasgau. (www.jcq.org.uk)

1.1 Nodau ac amcanion

Bydd y fanyleb TGAU Cymraeg iaith yn galluogi dysgwyr i:

- arddangos sgiliau llafaredd (siarad a gwrando), darllen ac ysgrifennu sy'n hanfodol wrth gyfathrebu ag eraill yn hyderus, yn effeithiol, yn gywir ac yn briodol
- arddangos eu medrusrwydd wrth gael gafael ar wybodaeth neu ei hadfer o amrywiaeth eang o destunau ysgrifenedig a dynamig/digidol, gan feithrin dealltwriaeth gyffredinol o'r testun, crynhoi a chyfuno'r cynnwys, deall yr ystyr a fwriadwyd a gwerthuso ei ddiben
- deall patrymau, strwythurau a chonfensiynau iaith lafar ac ysgrifenedig
- deall effaith amrywiadau mewn iaith, dethol ac addasu eu llafaredd a'u hysgrifennu yn ôl sefyllfaoedd, dibenion a chynulleidfaoedd gwahanol, datblygu eu sgiliau er mwyn diwallu eu hanghenion personol eu hunain yn ogystal ag anghenion cyflogwyr ac addysg bellach fel y gallant gymryd rhan lawn mewn cymdeithas a'r byd gwaith
- datblygu sgiliau rhesymu geiriol a'u gallu i feddwl mewn ffordd adeiladol a beirniadol wrth ymateb i destunau ysgrifenedig a digidol/dynamig
- datblygu sgiliau prawf ddarllen a golygu
- caffael y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer astudio pellach, gan gynnwys astudio Cymraeg ar Lefel 3 o'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol

Caiff sgiliau llafaredd, darllen ac ysgrifennu eu cydnabod mewn TGAU Cymraeg iaith. Rydym yn disgwyl i ymgeiswyr gael eu hysbrydoli, eu cymell a'u herio drwy ddilyn cwrs astudio eang, cydlynol, gwerthfawr, sy'n rhoi boddhad. Byddant yn datblygu eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg fel dinasyddion gweithgar a gwybodus a byddant yn gallu siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu yn rhugl, yn briodol, yn effeithiol ac yn feirniadol – at amrywiaeth eang o ddibenion personol, gweithredol a chymdeithasol. Bydd disgwyl i ymgeiswyr ymateb i amrywiaeth eang o destunau ysgrifenedig, gan gynnwys testunau heriol a dynamig. Byddant yn datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i wneud penderfyniadau hyddysg am gyfleoedd dysgu pellach a dewisiadau gyrfa.

Cynnwys y pwnc

Mae'r fanyleb hon yn nodi'r cynnwys yn llawn ar gyfer TGAU Cymraeg iaith. Gall canolfannau, fodd bynnag fod yn hyblyg wrth gyflwyno cynnwys a chyd-destun dyfnach, ehangach o fewn y testunau a nodir er mwyn atgyfnerthu addysgu cynnwys y pwnc.

Mae'r fanyleb TGAU Cymraeg iaith yn hyrwyddo ymagwedd integredig at lafared, darllen ac ysgrifennu fel bod gwaith ysgrifennu a llafared yn cael eu hysgogi gan brofiadau darllen.

Bydd pob testun yn yr arholiad yn rhai nas gwelwyd o'r blaen, hynny yw, ni fydd dysgwyr wedi astudio testunau'r arholiad yn ystod y cwrs.

Bydd TGAU Cymraeg iaith yn canolbwyntio'n bennaf ar agweddau **gweithredol** yr iaith. Dylai'r term 'gweithredol' yn y fan hon gael ei ystyried yn yr ystyr eang o roi'r sgiliau a'r galluedd i ddysgwyr sydd eu hangen arnynt i ymgymryd â rôl weithgar a chyfrifol yn eu cymunedau, eu bywydau bob dydd, yn y gweithle ac mewn lleoliadau addysgol.

Sgiliau llafared

- Cyflwyno gwybodaeth a dethol/trefnu gwybodaeth a syniadau yn effeithiol ac yn ddarbwyllog, *e.e. ar gyfer cyflwyniad llafar wedi'i baratoi neu drafodaeth grŵp.*
- Dangos dealltwriaeth o gonfensiynau'r iaith lafar mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.
- Siarad yn gywir ac yn rhugl, gan addasu arddull ac iaith fel eu bod yn addas ar gyfer amrywiaeth eang o ffurfiau, cyd-destunau, cynulleidfaoedd a dibenion.
- Arbrofi gydag iaith a thechnegau i fynegi barn, creu effeithiau a denu diddordeb cynulleidfaoedd.
- Talu sylw priodol i gywirdeb cystrawen a mynegiant.
- Cyfleu profiadau, syniadau a gwybodaeth yn glir, yn gywir ac yn briodol.
- Defnyddio sgiliau rhesymu geiriol, llunio barn annibynnol ac arddangos sgiliau gwranddo effeithiol drwy grynhoi pwyntiau allweddol, herio'r hyn a glywir ar sail rheswm, tystiolaeth neu ddadl.
- Ymateb yn adeiladol ac yn feirniadol i amrywiaeth eang o destunau ysgrifenedig a digidol/dynamig, gan ddefnyddio dulliau creadigol o ymchwilio i faterion, datrys problemau a datblygu syniadau.
- Myfyrio ar eu defnydd hwy o iaith a defnydd pobl eraill ohoni a rhoi sylwadau beirniadol ar hynny, cymryd rhan mewn amrywiaeth o gyd-destunau bywyd go iawn, ac addasu'r sgwrs yn briodol i'r sefyllfa a'r gynulleidfa.

Sgiliau darllen

- Ymateb, dadansoddi a myfyrio ar amrywiaeth eang o destunau ysgrifenedig (di-dor a rhai pytiog).
- Dadansoddi ac ymateb i destunau a'u pynciau, gan ddefnyddio sgiliau casglu a dehongli a chysylltu syniadau o fewn testunau ac ar eu traws.
- Arddangos annibyniaeth wrth gyfuno a chrynhoi gwybodaeth yn effeithiol o amrywiaeth o destunau.
- Dehongli themâu, ystyr, syniadau a gwybodaeth mewn amrywiaeth o destunau, a thestunau sy'n herio; darllen mewn ffyrdd gwahanol at ddibenion gwahanol, a chymharu a gwerthuso defnyddioldeb, perthnasedd a chyflwyniad y cynnwys.

- Cefnogi safbwynt drwy gyfeirio at dystiolaeth o fewn testunau; nodi rhagfarn a gwahaniaethu rhwng datganiadau a gefnogir gan dystiolaeth ac i'r gwrthwyneb.
- Gwerthuso a myfyrio ar y ffyrdd y gellir dehongli testunau yn wahanol yn ôl safbwynt y darlennydd a gwahaniaethu rhwng ffeithiau neu dystiolaeth a barn, rhagfarn a dadl.
- Deall a chydabod diben a dibynadwyedd testunau, e.e. *testunau at ddefnydd personol, cyhoeddus, galwedigaethol ac addysgol*.
- Arddangos sgiliau rhesymu geiriol wrth gyfuno a chrynhai gwybodaeth o amrywiaeth o destunau.

Sgiliau ysgrifennu

- Llunio testunau ysgrifenedig clir a chydlynol.
- Ysgrifennu'n effeithiol at ddibenion a chynulleidfaoedd gwahanol ac mewn ffurfiau gwahanol, e.e. *esbonio, cyfarwyddo, ailadrodd, hysbysu, trafod, darbwyllo, dadlau*.
- Dewis geirfa, gramadeg, ffurf a nodweddion strwythurol a threfniannol yn ystyriol i adlewyrchu'r gynulleidfa, y diben a'r cyd-destun.
- Amrywio strwythurau brawddegau i ddenu diddordeb y darlennydd a'i gynnal ac ysgrifennu'n gywir yn ramadegol.
- Defnyddio amrywiaeth lawn o ddulliau atalnodi er mwyn amrywio cyflymder y darn, esbonio ystyr, osgoi amwysedd a chreu effeithiau bwriadol.
- Trefnu'r ysgrifennu mewn ffurf briodol, gan sicrhau bod y cynnwys yn fanwl o fewn a rhwng paragraffau neu adrannau, datblygu a chynnal syniadau mewn ffordd gydlynol.
- Defnyddio iaith yn greadigol ac yn fanwl gywir.
- Defnyddio gwybodaeth a gasglwyd o amrywiaeth o ffynonellau i ysgrifennu'n gydlynol mewn ffurfiau gwahanol.
- Ysgrifennu er mwyn creu argraff drwy ddethol, trefnu a phwysleisio ffeithiau, syniadau a phwyntiau allweddol a dyfynnu tystiolaeth gymhellol i ategu safbwyntiau.

1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant

Er nad oes anghenion penodol parthed dysgu blaenorol, mae'r fanyleb hon yn adeiladu ar lefelau o lythrennedd a ddisgwylir ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 drwy FFLIRh.

Mewn pynciau megis Cymraeg iaith lle dysgir y testunau mewn mwy o ddyfnder yn gynyddol yn ystod Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4, gall deilliannau TGAU adlewyrchu neu adeiladu ar gynnwys pwnc a addysgir yng Nghyfnod Allweddol 3. Does dim disgwyl y dylid ailadrodd y cynnwys hwn yn ystod y cwrs TGAU pan fydd wedi ei gyflwyno eisoes mewn cyfnod cynharach.

Bwriad astudio TGAU Cymraeg iaith yw annog dilyniant i addysg bellach neu uwch, neu i gyflogaeth gan ei fod yn cyflwyno sgiliau allweddol darllen, ysgrifennu, a chyfathrebu.

1.3 Cydraddoldeb ac asesu teg

Gellir astudio'r fanyleb hon gan unrhyw ddysgwr, beth bynnag fo'i ryw, cefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Nid yw'r fanyleb hon yn oed benodol, ac felly oherwydd hyn darpara gyfleoedd i ymgeiswyr ymestyn eu haddysg gydol oes. Cynlluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allasai, heb gyfiawnhad ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwyr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd benodol wedi ei hamddiffyn.

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y nodweddion penodol wedi eu hamddiffyn yw oed, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r fanyleb hon wedi ei thrafod â grwpiau sy'n cynrychioli diddordebau ystod amrywiol o ddysgwyr, ac adolygir y fanyleb yn gyson.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr penodol er mwyn eu galluogi i gael mynediad i asesiadau (e.e. cais i gael amser ychwanegol i bwnc TGAU pan fydd gofyn am ysgrifennu estynedig). Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn nogfen Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC) *Trefniadau Mynediad Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol*. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan CGC. (www.jcq.org.uk).

Byddwn yn dilyn yr egwyddorion a osodir yn y ddogfen ac, o ganlyniad i ddarpariaeth addasiadau rhesymol, ychydig iawn o ddysgwyr fydd yn profi rhwystr llwyr i unrhyw ran o'r asesiad.

1.4 Bagloriaeth Cymru

Dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd lle bo'n briodol i ddatblygu'r sgiliau sy'n cael eu hasesu fel rhan o Graidd Bagloriaeth Cymru:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Ddigidol
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigedd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol

2 CYNNWYS PWNC

2.1 Uned 1

Uned 1: Asesiad Diarholiad

Llafar

30%

Tasg 1 (15%) – Cyflwyniad Unigol Ar Sail Ymchwil

(40 marc)

Un cyflwyniad unigol ar sail ymchwil a all gynnwys ymateb i gwestiynau ac adborth wedi eu seilio ar themâu penodol.

Disgwylir i ymgeiswyr gymryd rhan mewn gweithgaredd llafar unigol gan gyflwyno gwybodaeth ar unrhyw agwedd neu agweddau yn ymwneud ag un o'r themâu canlynol:

1. Cymru
2. Hamdden
3. Byd Gwaith
4. Byd Gwyddoniaeth/Technoleg
5. Dinasyddiaeth

Mae'r dasg hon yn rhoi cyfle i ymgeiswyr gyflwyno gwybodaeth a dangos rhesymu geiriol.

Tasg 2 (15%) - Ymateb a Rhyngweithio

(40 marc)

Un drafodaeth grŵp ar sail symbyliad ysgrifenedig a/neu weledol a ddarperir gan CBAC i hybu trafodaeth.

Disgwylir i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau llafar gydag eraill er mwyn mynegi a chefnogi barn. Mae'r gweithgaredd yn rhoi cyfle i'r ymgeiswyr gyfleu eu profiadau personol a/neu berswadio eraill.

Ar gyfer y ddwy dasg dyfernir hanner y marciau am gynnwys a threfn a'r hanner arall am gywair priodol, cywirdeb gramadegol ac ystod o strwythurau brawddegol.

Bydd ymateb pob ymgeisydd yn cael ei recordio'n electronig. Gellir gwneud recordiad sain neu glyweled. Gweler adran 3.2 'Trefniadau ar gyfer asesiad diarholiad' i gael canllawiau pellach.

2.2 Uned 2

Uned 2: Asesiad Allanol

Darllen ac Ysgrifennu: Disgrifio, Naratif ac Esbonio

35% (2 awr)

Adran A (15%) – Darllen

(30 marc)

Yn yr adran hon bydd yr ymgeiswyr yn cael eu profi ar eu dealltwriaeth o destunau - o leiaf un disgrifio, un naratif ac un esbonio gyda chyswllt thematig a fydd yn cael eu hasesu drwy gwestiynau strwythuredig.

Bydd amrywiaeth o destunau di-dor a phytiog lle bydd angen defnyddio amrywiol ddulliau darllen ac ymateb mewn ffyrdd gwahanol. Bydd y testunau a ddefnyddir yn yr adran hon yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i'r canlynol: *hunangofiant, cofiant, dyddiaduron, areithiau, adroddiadau, taithlyfrau, erthyglau newyddiadurol, adolygiadau, detholiadau o nofelau a straeon byrion* ynghyd â thestunau pytiog ar yr un thema megis, *hysbysebion, diagramau, rhestri, graffiau, amserlenni, tablau sy'n cynnwys iaith ysgrifenedig*. (Mae'n bosib cynnwys mathau eraill o ysgrifennu nas rhestrir uchod.)

Ychydig o ddarllen fydd ei angen ar rai testunau ond bydd angen darllen mwy trwyadl ar gyfer eraill a fydd yn fwy heriol.

Bydd amrywiaeth o ymatebion byr ac estynedig. Bydd rhai cwestiynau yn fyr (e.e. *cwestiynau aml-ddewis, ymatebion byr, cloze, dilyniannau*). Bydd eraill yn gofyn am atebion hirach (e.e. *aralleirio, deall cyd-destun, dadansoddi, dod i gasgliad*).

Bydd yr adran hon hefyd yn cynnwys tasg golygu testun a fydd yn canolbwyntio ar ddeall testun byr ar lefel gair, brawddeg a thestun (2.5% o'r cymhwyster cyfan).

Adran B (20%) – Ysgrifennu

(40 marc)

Yn yr adran hon, bydd ymgeiswyr yn cyflawni un dasg ysgrifenedig o ddewis o ddau. Bydd disgwyl i ymgeiswyr ysgrifennu un darn o ysgrifennu estynedig a all fod yn waith disgrifio, naratif neu esbonio gan godi gwybodaeth o ddeunydd darllen Adran A lle bo hynny'n briodol. Gallai hyn gynnwys *cofiant/portread, atgofion, ysgrifennu am brofiadau teithio/bwyta, dyddiadur, stori, naratif personol*. (Mae'n bosib cynnwys mathau eraill o ysgrifennu nas rhestrir uchod.)

Bydd yr adran hon hefyd yn cynnwys un dasg prawf ddarllen yn canolbwyntio ar ysgrifennu'n gywir. Yn y dasg fer hon bydd ymgeiswyr yn prawfddarllen a chywiro testun byr (2.5% o'r cymhwyster cyfan).

Dyfernir hanner y marciau yn yr adran hon am gyfathrebu a threfn (ystyr, pwrpasau, darllenwyr a strwythur) a'r hanner arall am ysgrifennu'n gywir (iaith, gramadeg, atalnodi a sillafu).

2.3 Uned 3

Uned 3: Asesiad Allanol

Darllen ac Ysgrifennu: Trafod, Perswâd a Chyfarwyddiadol 35% (2 awr)

Adran A (15%) – Darllen

(40 marc)

Yn yr adran hon bydd yr ymgeiswyr yn cael eu profi ar eu dealltwriaeth o destunau - o leiaf un trafod, un cyfarwyddiadol, ac un perswâd (o leiaf dri thestun) gyda chyswllt thematig a fydd yn cael eu hasesu drwy gwestiynau strwythuredig.

Bydd amrywiaeth o destunau di-dor a phytiog lle bydd angen defnyddio amrywiol ddulliau darllen ac ymateb mewn ffyrdd gwahanol. Bydd y testunau a ddefnyddir yn yr adran hon yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i'r canlynol: *llythyrau, negeseuon e-bost, taflenni gwybodaeth, erthyglau, adroddiadau, blogiau, hysbysiadau, canllawiau, testunau digidol ac amlgyfrwng* ynghyd â thestunau pytiog ar yr un thema megis *hysbysebion, diagramau, rhestri, graffiau, amserlenni, tablau* sy'n cynnwys iaith ysgrifenedig. (Mae'n bosib cynnwys mathau eraill o ysgrifennu nas rhestrir uchod.) Ychydig o ddarllen fydd ei angen ar rai testunau ond bydd angen darllen mwy trwyadl ar gyfer eraill a fydd yn fwy heriol.

Bydd amrywiaeth o ymatebion byr ac estynedig. Bydd rhai cwestiynau yn fyr (e.e. *cwestiynau aml-ddewis, ymatebion byr, cloze, dilyniannau*). Bydd eraill yn gofyn am atebion hirach (e.e. *aralleirio, deall cyd-destun, dadansoddi, dod i gasgliad*).

Adran B (20%) – Ysgrifennu

(40 marc)

Yn yr adran hon bydd yr ymgeiswyr yn cael eu profi drwy un dasg ysgrifenedig orfodol – trafod ac un dasg orfodol – perswâd. Bydd angen i'r ymgeiswyr ysgrifennu drwy ddangos ymwybyddiaeth o gynulleidfa a phwrpas, gan godi gwybodaeth o ddeunydd darllen Adran A lle bo hynny'n briodol a chan addasu eu harddull ysgrifennu i gyd-destunau go iawn e.e. *llythyrau, erthyglau, adolygiadau, areithiau* ac yn y blaen.

Dyfernir hanner y marciau yn yr adran hon am gyfathrebu a threfn (ystyr, pwrpasau, darllenwyr a strwythur) a'r hanner arall am ysgrifennu'n gywir (iaith, gramadeg, atalnodi a sillafu).

Mae'r asesu yn TGAU Cymraeg iaith yn ddi-haen h.y. bydd yr unedau i gyd yn caniatáu i ymgeiswyr gael mynediad i'r holl ystod graddau A* - G. Cynllunir y tasgau a'r cwestiynau i alluogi ymgeiswyr i ddangos eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'r hyn y gallant ei wneud.

Ni chaniateir geiriaduron yn ystod yr asesiadau.

3 ASESU

3.1 Amcanion Asesu a Phwysoli

AA1	Llafar	30%
AA2	Darllen	30%
AA3	Ysgrifennu	40%

Bydd angen i ymgeiswyr ddangos eu gallu i:

AA1 Llafaredd

- Cyflwyno a threfnu gwybodaeth yn glir a phwrpasol, gan gynnal ac addasu eu sgwrs mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau a sgiliau rhesymu geiriol fel y bo'n briodol.
- Gwrando ac ymateb yn briodol i syniadau, cwestiynau a safbwyntiau pobl eraill, a sut y maent yn llunio ac yn mynegi ystyron.
- Rhyngweithio ag eraill, gan lunio ystyr drwy awgrymiadau, sylwadau a chwestiynau a chasglu syniadau at ei gilydd.
- Defnyddio amrywiaeth o strwythurau brawddegau priodol er mwyn sicrhau eglurder, diben ac effaith, gyda gramadeg a mynegiant cywir.

Caiff hanner y credyd sydd ar gael ar gyfer AA1 ei ddyfarnu ar gyfer y dewis o gywair priodol, cywirdeb gramadegol ac amrywiaeth o strwythurau brawddegau gyda'r gweddill ar gyfer cynnwys a threfn.

AA2 Darllen

- Defnyddio sgiliau casglu a dehongli i adfer a dadansoddi gwybodaeth o ystod eang o destunau ysgrifenedig.
- Cyfuno a chrynhoi gwybodaeth o amrywiaeth o destunau.
- Dehongli themâu, ystyr, syniadau a gwybodaeth mewn amrywiaeth o destunau ac ysgrifennu heriol.
- Golygu testunau, cymharu a gwerthuso defnyddioldeb, perthnasedd a chyflwyniad cynnwys o fewn ac ar draws testunau.
- Cyfeirio at dystiolaeth o fewn testunau, gwahaniaethu rhwng datganiadau a ategir gan dystiolaeth ac i'r gwrthwyneb.
- Gwerthuso a myfyrio ar y ffyrdd y gellir dehongli testunau yn wahanol yn ôl safbwynt y darlennydd a gwahaniaethu rhwng ffeithiau neu dystiolaeth a barn, rhagfarn a dadl.
- Deall a chydabod diben a dibynadwyedd testunau, e.e. testunau at ddefnydd personol, cyhoeddus, galwedigaethol ac addysgol.

AA3 Ysgrifennu

- Ysgrifennu i gyfathrebu'n glir ac effeithiol, gan ddefnyddio ac addasu'r cywair a ffurfiau a dewis geirfa ac arddull sy'n briodol i'r dasg a'r diben mewn ffyrdd sy'n denu diddordeb y darlennydd.
- Prawf ddarllen a defnyddio nodweddion ieithyddol, gramadegol, strwythurol a chyflwyniadol yn eu gwaith ysgrifennu eu hunain er mwyn cyflawni effeithiau penodol, i ennyn diddordeb y darlennydd, dylanwadu arno a sicrhau cydlyniaeth gyffredinol.
- Defnyddio amrywiaeth o strwythurau brawddegau a pharagraffau yn briodol er mwyn sicrhau eglurder, diben ac effaith, gyda gramadeg, atalnodi a sillafu cywir.

Dyfernir hanner y marciau yn yr adran hon am gynnwys, cyfathrebu a threfn (ystyr, pwrpasau, darllenwyr a strwythur) a'r hanner arall am ysgrifennu'n gywir (iaith, gramadeg, atalnodi a sillafu).

Mae pwysoli'r amcanion asesu ym mhob cyfres arholiadau fel a ganlyn:

UNED	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
1	30%	-	-	30%
2	-	15%	20%	35%
3	-	15%	20%	35%
Cymhwyster	30%	30%	40%	100%

3.2 Trefniadau ar gyfer Asesiad Diarholiad (Llafaredd)

Mae rheoliadau'r asesiadau diarholiad wedi eu diffinio ar gyfer tri cham yr asesiad:

- gosod y dasg
- gwneud y dasg
- marcio'r dasg

Ar gyfer pob cam, pennwyd lefel benodol o reolaeth er mwyn sicrhau dilysrwydd a dibynadwyedd.

Nid oes haenau i'r asesiad diarholiad a gwahaniaethir trwy ganlyniad. Gall dysgwyr gwblhau Tasg 1 unrhyw bryd yn ystod y cwrs. Fodd bynnag, bydd rhaid cwblhau Tasg 2 yn y cyfnod rhwng rhyddhau deunyddiau ym Medi a chyflwyno marciau (ar gyfer y ddwy dasg) ar ddiwedd Mawrth ar gyfer cyfres yr Haf a/neu ddechrau Tachwedd ar gyfer cyfres yr Hydref. Rhaid gwneud hyn yn y flwyddyn academiaidd y cofrestrir yr ymgeiswyr. **Mae'n rhaid recordio'r ddwy dasg sy'n cael eu hasesu.** Gellir cyflwyno recordiad sain neu glyweled.

Rhyddhau deunyddiau symbylu	Cyfres yr Haf	Cyfres yr Hydref
Medi 2017	Mehefin 2018	Tachwedd 2018
Medi 2018	Mehefin 2019	Tachwedd 2019
Medi 2019	Mehefin 2020	Tachwedd 2020

Dylai ymgeiswyr gael digon o gyfleoedd i ymarfer eu sgiliau llafar mewn gwahanol sefyllfaoedd ac i wahanol gynulleidfaoedd, yn unigol ac mewn grwpiau. Bydd manteisio ar gyfleoedd i gyflwyno gwybodaeth a mynegi barn am bynciau amrywiol, yn ogystal â chyflwyno profiadau yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion ac yn datblygu eu sgiliau llafar a rhesymu geiriol.

Bydd rhaid seilio eu hasesiadau ar:

1. Cyflwyniad Unigol ar Sail Ymchwil: Ymateb i gwestiynau ac adborth yn seiliedig ar themâu a osodir gan CBAC.
2. Ymateb a Rhyngweithio: Un dasg grŵp yn seiliedig ar symbyliadau ysgrifenedig neu weledol a ddarperir gan CBAC i hybu trafodaeth.

Caiff hanner y credyd sydd ar gael ar gyfer AA1 ei ddyfarnu ar gyfer y dewis o gywair priodol, cywirdeb gramadegol ac amrywiaeth o strwythurau brawddegau gyda'r gweddill ar gyfer cynnwys a threfn. Dylai tasgau gael eu newid yn gyson.

Bydd angen i'r tasgau ddarparu cyfleoedd i ymgeiswyr i ddangos eu bod yn gallu:

- Cyflwyno a threfnu gwybodaeth yn glir a phwrrpasol, gan gynnal ac addasu eu sgwrs mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau a sgiliau rhesymu geiriol fel y bo'n briodol.
- Gwrando ac ymateb yn briodol i syniadau, cwestiynau a safbwyntiau pobl eraill, a sut y maent yn llunio ac yn mynegi ystyron.
- Rhyngweithio ag eraill, gan lunio ystyr drwy awgrymiadau, sylwadau a chwestiynau a chasglu syniadau at ei gilydd.
- Defnyddio amrywiaeth o strwythurau brawddegau priodol er mwyn sicrhau eglurder, diben ac effaith, gyda gramadeg a mynegiant cywir.

TASG 1 Cyflwyniad Unigol Ar Sail Ymchwil

Gosod y dasg

Ar gyfer y dasg hon, dylai ymgeiswyr gael y cyfle i gymryd rhan yn unigol gan gyflwyno gwybodaeth ar unrhyw agwedd neu agweddau yn ymwneud ag **un** o'r themâu canlynol:

1. Cymru
2. Hamdden
3. Byd Gwaith
4. Byd Gwyddoniaeth/Technoleg
5. Dinasyddiaeth

Disgwylir i gyflwyniad unigol i barhau rhwng pump i saith munud, yn cynnwys ymateb i gwestiynau gan y gynulleidfa.

Gwneud y dasg

Dylai ymgeiswyr gael un wythnos i baratoi o flaen llaw ar gyfer y dasg. Yn ystod y cyfnod paratoi gall ymgeiswyr weithio o dan oruchwyliaeth gyfyngedig a gallant ymchwilio i'r pwnc trwy ddefnyddio'r we, darllen papurau newydd / cylchgronau / llyfrau cyfair / pamffledi, gwrando ar raglenni teledu neu holi pobl. Gall athrawon roi arweiniad a chynnig cyngor cyffredinol i'r ymgeiswyr ynglŷn â gwneud y dasg.

Disgwylir i'r ymgeiswyr gyflwyno gwybodaeth y maent wedi ei pharatoi o flaen llaw ar unrhyw agwedd neu agweddau yn ymwneud â'r themâu a nodwyd uchod.

- Caniateir i ymgeiswyr ddefnyddio gwrthrychau neu ddelweddau fel cymorth yn unig wrth gyflwyno gwybodaeth ar eu pwnc dewisol.
- Gall yr ymgeiswyr ddefnyddio pwyntiau bwled byr sy'n cynnwys ystadegau, ffeithiau, enghreifftiau a dyfyniadau perthnasol.
- Gellir defnyddio technoleg gwybodaeth e.e. *PowerPoint*, fel adnodd i gynorthwyo'r cyflwyniad yn unig. **Pwysleisir nad tasg ddarllen mo hon ond cyflwyniad llafar wedi ei baratoi gan yr ymgeisydd.**
- Dylai athrawon gadw unrhyw bwyntiau bwled neu gyflwyniad *PowerPoint* ar ddiwedd cyflwyniad.
- Ar ddiwedd y cyflwyniad yn unig y caniateir i ddisgyblion eraill ofyn rhai cwestiynau.
- Bydd cyflwyniad unigol ar sail ymchwil yn parhau rhwng pump i saith munud, yn cynnwys ymateb i gwestiynau gan y gynulleidfa.

Swyddogaeth yr athro/athrawes

Yn ystod y **cyflwyniad unigol ar sail ymchwil** gan yr ymgeisydd, dylai'r athro/athrawes:

- roi cyfle i'r ymgeisydd wneud ei gyflwyniad yn annibynnol
- sicrhau nad yw'r ymgeisydd yn darllen y cyflwyniad
- ymyrryd neu brocio os oes angen **yn unig**
- rheoli'r cwestiynau a gyflwynir i'r ymgeisydd

Marcio'r dasg

Disgwylir i'r athro/athrawes farcio'r dasg o gyfanswm o **40**.

Dylid asesu ymgeiswyr gan yr athro/athrawes naill ai yn syth yn dilyn y cyflwyniad neu drwy wrando ar recordiad electronig o ymateb y dysgwr. Dylid cyfeirio at y meini prawf i osod ymateb yr ymgeisydd yn y band marcio priodol.

Dylai'r marc allan o gyfanswm o 40 gael ei roi am gyflwyniad yr ymgeisydd a'r ymateb i gwestiynau ac adborth.

Asesir iaith a mynegiant yr ymgeiswyr yn y dasg. Caiff hanner y marciau sydd ar gael eu dyfarnu am gywair priodol, cywirdeb gramadegol ac amrywiaeth o strwythurau brawddegau gyda'r gweddill ar gyfer cynnwys a threfn.

TASG 2 Ymateb a Rh yngweithio (trafodaeth grŵp)

Gosod y dasg

Bydd CBAC yn darparu dewis o dair tasg osod (gweler llyfryn deunyddiau enghreifftiol am enghreifftiau) a bydd rhain yn cael eu hadnewyddu yn flynyddol ym mis Medi. Dylid cyflwyno manylion am y tasgau a osodir ar y ffurflen Gweithgareddau Llafar i'r safonwr allanol erbyn dyddiad a nodir ar wefan CBAC.

Gosodir sbardunau ysgrifenedig a/neu weledol yn seiliedig ar faterion cyfoes megis *Delwedd* neu *Hawliau Dynol*. Symbyliadau ar gyfer dechrau trafodaeth yn unig fydd y sbardunau hyn, a gellir cyfeirio at bethau perthnasol eraill na sonnir amdanynt yn y deunydd a gyflwynir.

Dylai ymgeiswyr gael un wythnos i baratoi o flaen llaw. Yn ystod y cyfnod paratoi gall ymgeiswyr weithio o dan oruchwyliaeth gyfyngedig ac ymchwilio i'r pwnc trwy ddefnyddio'r we, darllen papurau newydd / cylchgronau neu wrando ar y newyddion. Gall athrawon roi arweiniad a chynnig cyngor cyffredinol i'r ymgeiswyr.

Dylai'r drafodaeth gymryd tua 10 munud.

Gall cydweithio ag eraill gynorthwyo ymgeiswyr unigol yn ystod y cyfnod paratoi e.e. trafodaethau grŵp a gweithgareddau chwarae rôl, ond mewn asesiad rhaid i bob ymgeisydd ddarparu ymateb digonol i sicrhau bod modd asesu ei gyfraniad.

Gwneud y dasg

Dylai ymgeiswyr gyflawni'r gwaith i gyd o dan oruchwyliaeth ffurfiol. Gellir cyflawni'r gwaith paratoi o dan oruchwyliaeth gyfyngedig. Bydd ymgeiswyr yn cael mynediad at adnoddau megis y symbyliadau gan y ganolfan yn ôl canllawiau CBAC.

Dylid gofyn i'r ymgeiswyr drafod y pwnc a roddwyd iddynt gan fynegi eu barn bersonol. Dylid caniatáu iddynt wneud hynny'n weddol annibynnol er y gellir ymyrryd ar adegau er mwyn symud y drafodaeth yn ei blaen.

Dylai'r drafodaeth gymryd tua 10 munud.

Swyddogaeth yr athro/athrawes yn ystod y drafodaeth lafar

Yn ystod y **drafodaeth grŵp** dylai'r athro/athrawes **roi cyfle i'r grŵp drafod yn weddol annibynnol**.

Dylid cyfyngu cefnogaeth yr athro/athrawes i egluro tasgau a dylid recordio hyn fel rhan o'r asesiad. Os yw athro yn ymyrryd er enghraifft i brocio ymgeisydd, dylid cofnodi hyn a chymryd hyn i ystyriaeth wrth asesu.

Os bydd angen dylai athro/athrawes:

- sbarduno trafodaeth
- hybu newid cyfeiriad y drafodaeth
- gofyn i ymgeisydd gynnig tystiolaeth i gadarnhau syniadau neu ddatblygu dadl
- sicrhau bod pob ymgeisydd yn cael cyfle i ymateb

Marcio'r dasg

Disgwylir i'r athro/athrawes farcio'r dasg o gyfanswm o **40**.

Dylid asesu ymgeiswyr gan yr athro/athrawes naill ai yn syth yn dilyn yr ymateb neu drwy wrando ar recordiad electronig o ymateb y dysgwr. Dylid cyfeirio at y meini prawf i osod ymateb yr ymgeisydd yn y band marcio priodol.

Asesir iaith a mynegiant yr ymgeiswyr yn y dasg. Caiff hanner y marciau sydd ar gael eu dyfarnu am gywair priodol, cywirdeb gramadegol ac amrywiaeth o strwythurau brawddegau gyda'r gweddill ar gyfer cynnwys a threfn.

Safoni'r ddwy dasg

Dylai safoni mewnlol ddigwydd ar ddwy lefel:

- (i) Er mwyn sicrhau bod safon yr asesu yn gyson ar draws y grwpiau dysgu rhaid i safoni mewnlol trylwyr ddigwydd o fewn canolfan.

Mae'n rhaid sicrhau cyfleoedd i gyfnewid gwaith a thrafod meini prawf yn gyson. Rhaid i ganolfannau safoni asesiadau ar draws gwahanol athrawon a grwpiau addysgu. Rhaid i un person fod yn gyfrifol am y drefn safoni mewnlol yn y ganolfan. Rhaid i'r asesu mewnlol ddigwydd cyn cyflwyno marciau i CBAC.

- (ii) Rhaid i ganolfan anfon sampl o ymatebion wedi'u recordio, wedi ei ddewis gan CBAC, at y safonwr allanol erbyn dyddiad a bennir ar ddiwedd Mawrth ym mlwyddyn y cofrestru.

Dylai canolfannau lenwi taflen farciau yn cofnodi pob ymgeisydd a ddewisir ar gyfer safoni allanol (ar gael o wefan CBAC). Dylid nodi:

- y sbardun a roddwyd i'r ymgeiswyr ar gyfer y dasg Ymateb a Rhyngweithio
- unrhyw ragbaratoi ar ran yr ymgeiswyr ac unrhyw gymorth/arweiniad a roddwyd gan yr athro/athrawes
- unrhyw nodiadau/sylwadau perthnasol ar gyfer y safonwr megis sut y cafodd y tasgau eu cyflawni
- a ddefnyddiwyd nodiadau byr neu gyflwyniad *PowerPoint* gan yr ymgeisydd ar gyfer y dasg unigol

Bydd cymedroli yn digwydd ar ddwy lefel:

- (i) Mae gofyn i ganolfannau sicrhau bod safoni mewnlol yn digwydd cyn cyflwyno'r marciau yn derfynol, fel bod y safonau a ddefnyddir yn gyson â'r rheini a welir yn y deunyddiau enghreifftiol, er mwyn sefydlu trefn restrol ddibynadwy o fewn y ganolfan. Gall dulliau addas o gyflawni hyn ddibynnu ar bolisi a threfn canolfannau unigol. **Fodd bynnag, mae'n rhaid i sampl o ymgeiswyr pob athro/athrawes gael ei ailasesu gan athro/athrawes arall. Dylai'r sampl hwn gynnwys o leiaf dri ymgeisydd ar draws yr ystod gallu o bob grŵp dysgu yn y ddwy dasg.**

Cynhyrchir deunyddiau asesu enghreifftiol yn gyson. **Mae'n rhaid i bob athro/athrawes sy'n addysgu TGAU Cymraeg iaith gwrdd i drafod y deunydd enghreifftiol fel cymorth i osod y dasg, asesu a safoni'r marcio.**

- (ii) Bydd dadansoddiad ystadegol o ganlyniadau pob uned yn digwydd bob blwyddyn. Os bydd proffil annodweddiadol i'w weld yn yr elfen Lafar, hysbysir y ganolfan a chynhelir trafodaeth i egluro'r sefyllfa. Gall hyn arwain at ymweliad ymgynghorol neu, mewn achos difrifol, ymweliad cymedroli.

Y sampl cymedroli

Caiff sampl o'r gwaith a safonir yn allanol ar gyfer y ddwy dasg: Cyflwyniad Unigol Ar Sail Ymchwil ac Ymateb a Rhyngweithio ei ddewis gan CBAC. Bydd y sampl yn adlewyrchu'r holl ystod gallu. Dylid ysgrifennu'n glir ar y recordiadau a gyflwynir rif ac enw'r ganolfan yn ogystal ag enwau a rhifau'r ymgeiswyr.

Darperir canllawiau pellach i athrawon neu ganolfannau unigol pan na fyddant yn cwrdd â gofynion CBAC. Os oes angen, gellir gofyn am sampl pellach ar gais y safonwr. Os bydd problem ddifrifol yn codi, gall CBAC argymhell monitro gwaith y ganolfan a'r broses safoni cyhyd ag y tybir bod angen gwneud hynny.

Cyflwyno marciau

Cyflwynir marciau pob ymgeisydd i CBAC erbyn diwedd Mawrth.

CANLLAWIAU PELLACH

Nid oes cyfyngiad ar amser ar gyfer dysgu ac addysgu wrth baratoi ar gyfer asesiad Llafar. Yn ystod y cyfnod paratoi bydd ymgeiswyr yn medru edrych ar eu nodiadau a thestunau ac unrhyw ddeunydd ymchwil perthnasol. Ar ddiwedd yr asesiad, bydd y gwaith yn cael ei farcio yn ôl yr arfer. Gall ymgeiswyr gael adborth am eu hasesiad llafar ond mae'n bwysig bod cofnod yn cael ei gadw yn ddiogel ym meddiant yr athro/athrawes.

TASG 1: Cyflwyniad Unigol Ar Sail Ymchwil

	<i>Cynnwys a threfn</i>	<i>Cywair, cywirdeb iaith, a strwythur brawddegol</i>
Band 5	17–20 marc - Cyflwyno gwybodaeth a syniadau (yn cynnwys gwahanol agweddau ar y pwnc) yn gydlynol ac effeithiol gan ddangos treiddgarwch wrth ddehongli - Pwysleisio blaenoriaethau a manylder hanfodol wrth ddadansoddi a gwerthuso gwybodaeth gymhleth a heriol - Cyflwyniad sy'n dangos ymwybyddiaeth o'r angen i ddal sylw a chreu effaith ar y gynulleidfa	17-20 marc - Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir - Defnyddio cywair cwbl addas i'r dasg a'r gynulleidfa - Gafael sicr iawn ar ramadeg - Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol - Gafael sicr iawn ar dreigladau - Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid
Band 4	13-16 marc - Cyflwyno a dehongli gwybodaeth a syniadau (yn cynnwys rhai agweddau ar y pwnc) yn hyderus gan bwysleisio materion arwyddocaol - Egluro syniadau mewn manylder gan ddadansoddi a gwerthuso'n bwrpasol - Addasu a threfnu cyflwyniad sy'n briodol i'r gynulleidfa yn fedrus	13-16 marc - Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir - Defnyddio cywair priodol i'r dasg a'r gynulleidfa'n gyson - Gafael sicr ar ramadeg - Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig - Gafael sicr ar dreigladau - Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid
Band 3	9-12 marc - Cyflwyno gwybodaeth a syniadau (yn cynnwys trafod mwy nag un agwedd ar y pwnc) yn effeithiol gan gyfeirio at faterion arwyddocaol - Egluro manylion perthnasol gan ddadansoddi a gwerthuso rhywfaint - Peth eglurder wrth drefnu cyflwyniad sy'n briodol i'r gynulleidfa	9-12 marc - Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir - Dangos ymwybyddiaeth o gywair priodol i'r dasg a'r gynulleidfa - Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan - Defnyddio amrywiaeth o frawddegau - Mwyafrif y treigladau yn gywir - Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir
Band 2	5-8 marc - Cyflwyno gwybodaeth a syniadau syml (un agwedd yn bennaf) - Cyflwyno rhai manylion arwyddocaol - Peth ymgais i strwythuro cyflwyniad sy'n briodol i'r gynulleidfa	5-8 marc - Defnyddio peth ystod o eirfa - Dangos peth ymwybyddiaeth o gywair priodol i'r dasg a'r gynulleidfa - Gafael anghyson ar ramadeg - Amrywio brawddegau rywfaint - Treigladau yn eithaf cywir - Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir
Band 1	1-4 marc - Cyflwyno peth gwybodaeth a/neu syniadau yn fyr - Mynegi manylion syml gydag anogaeth - Peth ymwybyddiaeth o'r gynulleidfa	1-4 marc - Ystod gyfyngedig o eirfa - Gafael gyfyngedig ar ramadeg - Ystod gyfyngedig o frawddegau - Gafael gyfyngedig ar dreigladau - Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid
0 marc	Dim sy'n haeddu ei wobrwyo	

Yn y dasg hon disgwylir bod ymgeiswyr yn arddangos sgiliau rhesymu geiriol. Cyfeiria 'rhesymu geiriol' at dasgau meddwl mwy cymhleth megis dadansoddi, cyfuno a gwerthuso, datrys problemau drwy resymu â geiriau ac iaith.

TASG 2: Ymateb a Rhyngweithio (Trafodaeth Grŵp)

	<i>Cynnwys a threfn</i>	<i>Cywair, cywirdeb iaith, a strwythur brawddegol</i>
Band 5	17-20 marc - Cyfrannu'n aeddfed a threiddgar drwy gydol y drafodaeth - Trafod yn ymestynol gyda thystiolaeth briodol i gefnogi barn - Gwrando'n astud ar hyd yr amser, gan ddangos dealltwriaeth o syniadau cymhleth drwy ofyn cwestiynau treiddgar i newid cyfeiriad trafodaeth - Pwysu a mesur safbwyntiau eraill yn ofalus ac ymateb yn fedrus a sensitif - Datblygu ac egluro syniadau wrth drafod gan ehangu a chrynhoi pan fo angen	17-20 marc - Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir - Defnyddio cywair cwbl addas i'r dasg a'r gynulleidfa - Gafael sicr iawn ar ramadeg - Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol - Gafael sicr iawn ar dreigladau - Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid
Band 4	13-16 marc - Cyfrannu'n hyderus a phwrpasol yn ystod y drafodaeth - Trafod yn fanwl gan fynegi barn yn glir a chyflwyno tystiolaeth yn gyson - Herio, datblygu ac ymateb i'r hyn a drafodir yn feddylgar ac ystyriol, gan geisio cael eglurhad drwy ofyn cwestiynau addas - Ymateb yn briodol i safbwyntiau eraill - Datblygu syniadau i gynnal a hybu trafodaeth, gan ddangos peth gallu i ehangu a chrynhoi	13-16 marc - Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir - Defnyddio cywair priodol i'r dasg a'r gynulleidfa'n gyson - Gafael sicr ar ramadeg - Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig - Gafael sicr ar dreigladau - Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid
Band 3	9-12 marc - Gwneud cyfraniadau sylweddol i ddatblygu'r drafodaeth - Trafod a mynegi barn gyda pheth manylder a chyflwyno tystiolaeth berthnasol - Gwrando'n astud a gofalus, gan ymateb yn feddylgar i'r hyn a glywir - Ymateb i syniadau a theimladau pobl eraill gan adnabod rhagfarnau neu dueddiadau amlwg a chyfeirio at fanylion penodol - Datblygu prif syniadau yn y drafodaeth .	9-12 marc - Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir - Dangos ymwybyddiaeth o gywair priodol i'r dasg a'r gynulleidfa - Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan - Defnyddio amrywiaeth o frawddegau - Mwyafrif y treigladau yn gywir - Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir
Band 2	5-8 marc - Gwneud cyfraniad penodol a pherthnasol i'r drafodaeth - Trafod a mynegi barn ar adegau allweddol - Ymateb yn gadarnhaol i'r hyn a glywir, gan gynnwys cais iddynt egluro neu roi mwy o fanylion - Caniatáu i eraill fynegi syniadau neu farn wahanol ac ymateb yn briodol - Datblygu peth ar syniadau arwyddocaol yn y drafodaeth	5-8 marc - Defnyddio peth ystod o eirfa - Dangos peth ymwybyddiaeth o gywair priodol i'r dasg a'r gynulleidfa - Gafael anghyson ar ramadeg - Amrywio brawddegau rywfaint - Treigladau yn eithaf cywir - Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir
Band 1	1-4 marc - Gwneud cyfraniadau byr, achlysurol a gosodiadau cyffredinol wrth drafod - Mynegi barn yn fyr ac yn syml - Ymateb i'r hyn a glywir gyda pheth diddordeb - Dilyn syniadau canolog a thrywydd posibl y drafodaeth a chodi ambell gwestiwn syml - Ymgais i ddatblygu barn bersonol yn y drafodaeth	1-4 marc - Ystod gyfyngedig o eirfa - Gafael gyfyngedig ar ramadeg - Ystod gyfyngedig o frawddegau - Gafael gyfyngedig ar dreigladau - Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid
0 marc	Dim sy'n haeddu ei wobrwyo	

4 GWYBODAETH DECHNEGOL

4.1 Cofrestru

Manyleb linol yw hon lle bydd yr asesiadau i gyd yn digwydd ar ddiwedd y cwrs. Bydd cyfleoedd asesu ar gael yng nghyfresi'r haf ac ym mis Tachwedd ym mhob blwyddyn tan ddiwedd cyfnod y fanyleb. Bydd cyfle cyntaf asesu yn digwydd yn Haf 2017.

Gellir sefyll cymhwyster fwy nag unwaith. Rhaid i ymgeiswyr ailsefyll pob cydran arholiad yn yr un gyfres.

Gellir trosglwyddo marciau asesu di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb. Os bydd ymgeisydd yn ailsefyll cydran Asesu Di-arholiad (yn hytrach na throsglwyddo marc yr Asesiad Di-arholiad blaenorol), yna'r marc newydd fydd yn cyfrif tuag at y radd gyffredinol, hyd yn oed os yw'n is na'r marc o'r ymgais flaenorol.

Os ardystiodd ymgeisydd ar ddau achlysur neu fwy o'r blaen, y marc o'r asesiad di-arholiad mwyaf diweddar sy'n cael ei drosglwyddo, heb ystyried a yw'r marc hwnnw'n uwch neu'n is (oni bai bod y marc yn absennol).

Mae'r cod cofrestru i'w weld isod.

TGAU CBAC Cymraeg Iaith: 3000CS

Rhoddir y gweithdrefnau cofrestru diweddaraf yn ein fersiwn cyfredol o'r ddogfen *Gweithdrefnau Cofrestru a Gwybodaeth am Godau*.

4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Mae cymwysterau TGAU yn cael eu hadrodd ar raddfa wyth pwynt A* - G lle mae A* yw'r radd uchaf. Bydd canlyniadau na fyddant yn cyrraedd y safon isaf posibl ar gyfer y dyfarniad yn cael eu cofnodi fel U (annosbarthedig).